
Hawdd ei Ddeal

AMGUEDDFA CYMRU

# Adolygiad Blynyddol

## Beth wnaethon ni o 2024 i 2025



Medi 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Adolygiad Blynyddol Amgueddfa Cymru 2024 - 2025.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Mae'r geiriau mewn **glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl yn y blwch o dan y gair.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Amgueddfa Cymru.** I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.amgueddfa.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Amdanom ni** .......... 4

**Ein hymrwymiadau** .......... 7

**1. Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn cynnwys pawb.** .......... 9

**2. Helpu pobl i fod yn greadigol a dysgu ar unrhyw oedran** .. 11

**3. Gofalu am natur a'n hamgylchedd** .......... 13

**4. Cefnogi lles pobl** .......... 15

**5. Gwneud mwy o bethau yn ddigidol** .......... 17

**6. Gweithio gydag eraill ar draws y byd** .......... 19

**Gwaith arall rydyn ni wedi'i wneud** .......... 20

**Cefnogwch ni** .......... 21

# Amdanom ni

AMGUEDDFA CYMRU

Ni ydy **Amgueddfa Cymru**.



Rydyn ni'n elusen sy'n cynnwys 7 amgueddfa ac 1 ganolfan gasglu. Rydych chi'n gallu ymweld â'n hamgueddfeydd am ddim, ac mae croeso i bawb.



Fe ddaeth ychydig o dan 1 miliwn a hanner o ymwelwyr i ymweld â ni rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.



Fe wnaeth bron i 2 filiwn a hanner o bobl ymweld â'n gwefan. Fe wnaeth tua'r un faint ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol.



Roedd 754 o wirfoddolwyr yn gweithio i ni.



Fe wnaeth dros 200 mil o blant gymryd rhan yn ein rhaglen ddysgu.



Mae Big Pit  Amgueddfa Lofaol Cymru yn un o’r amgueddfeydd sydd â’r sgôr orau yn y DU gyfan. Fe wnaeth tua 9 allan o 10 ymwelydd roi 5 seren iddo .




Diolch i bawb sydd wedi rhoi cefnogaeth i ni. Mae hyn yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Chwaraewyr y People’s Postcode Lottery
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Gelf
- Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston
- Cyfeillion Amgueddfa Cymru
- Sefydliad Hodge
- Sefydliad Paul Hamlyn
- A sefydliadau eraill am eu cefnogaeth



Rydyn ni hefyd eisiau diolch i’n haelodau a’r rhai sydd wedi cyfrannu a’n cefnogi.




Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi prynu pethau yn ein caffi, siopau ac arddangosfeydd.



Mae’r rhain wedi helpu i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu mwynhau Amgueddfa Cymru.




# Ein hymrwymiadau



Mae ymrwymiadau yn meddwl y pethau rydyn ni'n addo eu gwneud. Rydyn ni'n credu y dylai fod yn hawdd i bawb gymryd rhan yn beth rydyn ni'n ei wneud.




Mae gennym ni gynllun o'r enw Strategaeth 2030. Mae'n siarad am yr holl bethau rydyn ni am eu gwneud. Y rhain ydy:




1. Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn cynnwys pawb.
2. Helpu pobl i fod yn greadigol a dysgu ar unrhyw oedran.
3. Gofalu am natur a'n hamgylchedd.
4. Cefnogi lles pobl.
5. Gwneud mwy o bethau yn **ddigidol**.
6. Gweithio gydag eraill ar draws y byd.



Mae **digidol** yn meddwl defnyddio pethau fel cyfrifiaduron, y rhyngrwyd, tabledi, a ffonau clyfar.




Rydyn ni eisiau bod yn lle i bawb, nawr ac yn y dyfodol.



Rydyn ni eisiau gweithio'n dda gyda sefydliadau a chymunedau eraill.




Rydyn ni eisiau cefnogi ein staff a thrin pobl yn gyfartal ac yn deg.



Mae'r ddogfen yma am ein gwaith tuag at ein 6 ymrwymiad  yn 2024 i 2025.

# 1. Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn cynnwys pawb.



Rydyn ni wedi gweithio mwy gyda chymunedau. Mae hyn wedi helpu mwy o bobl i gael eu cynnwys.



Mae hefyd wedi helpu mwy o bobl i ddweud wrthyn ni am eu profiadau. Mae straeon pobl yn gallu cael eu cynnwys yn ein gwaith.



Rydyn ni wedi rhedeg prosiectau fel **Newid Byd** gyda **Innovate Trust** a **purpleSTARS.** Mae hyn wedi meddwl bod pobl ag anableddau dysgu yn cymryd rhan.





Fe wnaethon ni hefyd weithio gyda grwpiau yng nghymoedd de Cymru i greu **Streic! 84-85** ac arddangosfa **Y Cymoedd.**



Rydyn ni wedi cael prosiectau eraill lle mae pobl yn gallu cymryd rhan. Er enghraifft, **Hanes Pobl Dduon 365,** Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru a **Cymru...Balchder.**




Hefyd, ein digwyddiadau yn Pride Cymru, Eisteddfod yr Urdd, Sioe Frenhinol Cymru, Gŵyl Grefft Cymru.



# 2. Helpu pobl i fod yn greadigol a dysgu ar unrhyw oedran



Rydyn ni wedi rhoi cyfle i bobl gymryd rhan yn ein gwaith a dysgu.



Rydyn ni wedi gweithio gyda sefydliadau fel:

- Dechrau'n Deg
- Tŷ Hafan
- Mudiad Meithrin
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Cronfa Gelf a Nesta ar gyfer y rhaglen Rhyfeddodau Bach.




Rydyn ni hefyd wedi cynnig cyfleoedd i bobl ddysgu ar-lein.



Er enghraifft, trwy Ehangu Gorwelion. Mae'r rhaglen yma wedi helpu plant ysgol i ddysgu am ein casgliadau.

Mae cyfleoedd hefyd wedi bod i ddysgu sgiliau. Er enghraifft, trwy:



- Prentisiaid Crefft Mwyngloddio yn bod yn dywyswyr yn Big Pit  Amgueddfa Lofaol Cymru.



- Mecaneg yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol

- Lleoliadau Datblygu Sgiliau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.




Diolch i'n gwirfoddolwyr anhygoel. Mae eu hamser a'u hangerdd mor bwysig i'n gwaith.

# 3. Gofalu am natur a'n hamgylchedd



Rydyn ni'n gweithio'n galed i edrych ar ôl yr amgylchedd. A gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn achosi llai o ddifrod.



Rydyn ni wedi gwneud newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n defnyddio ynni, fel gwresogi a thrydan.




Rydyn ni wedi gwella'r ffordd rydyn ni'n ailgylchu ac yn lleihau gwastraff.





Rydyn ni wedi plannu mwy o flodau gwyllt yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. A dolydd gwair yn Sain Ffagan  Amgueddfa Werin Cymru.



Mae gennym ni **Lwybr Dôl newydd** yn Amgueddfa Wlân Cymru.



Rydyn ni hefyd yn dysgu mwy am y blaned o weithio gyda myfyrwyr ac eraill, gan wneud ymchwil.



# 4. Cefnogi lles pobl.



Rydyn ni'n gweithio ar ein hamgueddfeydd a'n rhaglenni i helpu i wella lles i bawb.



Mae llawer o waith yn digwydd i wella'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol.



Roedd rhaglen o'r enw **Hwyl Fawr... Am y tro** ym mis Tachwedd. Fe wnaeth hyn helpu i ddod â phrofiadau ac atgofion pobl at ei gilydd cyn i'r gwelliannau gael eu gwneud.







Mae **Sied Wehyddu** yn yr Amgueddfa Wlân Cymru. Mae hwn wedi ei adfer.



Fe wnaeth **Gwesty'r Vulcan** agor yn Sain Ffagan,  Amgueddfa Werin Cymru.



Mae ein prosiectau yn ceisio rhoi lles yn gyntaf. Er enghraifft, ein rhaglen Amgueddfeydd yn Ysbrydoli Atgofion.

# 5. Gwneud mwy o bethau yn ddigidol



Rydyn ni'n gwneud mwy o waith ar-lein i helpu pobl i gymryd mwy o ran.



Mae miloedd o weithiau celf ar gael i'w gweld ar-lein ar wefan Celf ar y Cyd.



Mae gennym ni dudalen newydd Digwyddiadau sy'n  ei gwneud hi'n haws cynllunio ymweliad.





Rydyn ni hefyd yn defnyddio technoleg i helpu pobl i ddysgu. Er enghraifft, gyda'n **Mamoth** yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae hyn yn defnyddio math o dechnoleg o'r enw **realiti estynedig.**



Enghraifft arall o dechnoleg ydy trwy Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Rydyn ni'n defnyddio ap o'r enw TellMe.



Yma mae pobl yn gallu profi'r amgueddfa ar-lein. Mae hyn yn cael ei alw yn **realiti rhithwir.**



# 6. Gweithio gydag eraill ar draws y byd



Fe wnaethon ni weithio gydag amgueddfa gelf ym Mharis o’r enw Musee d’Orsay.



Fe wnaethon nhw fenthyg paentiad gan yr artist Vincent Van Gogh i ni. Dyma’r tro cyntaf i hunanbortread gan yr artist yma gael ei arddangos yng Nghymru.



Fe wnaethon ni hefyd weithio gydag amgueddfa gelf yn Japan.



Mae gan fwy o amgueddfeydd ar draws y byd ddiddordeb mewn gweithio gyda ni.



Fe wnaeth Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru  gael ei defnyddio ar gyfer y ffilm o’r enw **Mr Burton** a **Death Valley**.

# Gwaith arall rydyn ni wedi'i wneud



Rydyn ni wedi gweithio'n galed i gadw ein hamgueddfeydd yn ddiogel ac yn groesawgar.



Fe wnaethon ni wella ein gwasanaethau bwyd a siopa. Rydyn ni nawr yn eu rhedeg ein hunain.



Rydyn ni wedi parhau i dyfu ein hymchwil a gweithio gyda myfyrwyr trwy'r cynllun **Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus.**




Rydyn ni'n gwella'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneud yn siŵr bod modd defnyddio ein deunyddiau dysgu yn Gymraeg.



Rydyn ni hefyd yn rhoi cyfle i staff ddysgu Cymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain.

# Cefnogwch ni





Rydyn ni'n elusen. Mae pob rhodd rydyn ni'n ei gael yn ein helpu i aros ar agor a gwneud ein gwaith.



Rydych chi'n gallu cyfrannu i ni ar ein gwefan: https://amgueddfa.cymru/cyfrannu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydyn ni hefyd yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru a rhai sefydliadau eraill.





Mae'r cyllid yma yn ein helpu i redeg ein prosiectau ac aros ar agor.



**Enwau rhai o'n casgliadau newydd ydy:**

- Casgliad o luniau Thomas Sims
- Yusuke Yamamoto, Gardd Frith
- Diwylliant Cyffredin, Gwrth-ddiwylliant




Mae gennym ni lawer o ddigwyddiadau dros y flwyddyn nesaf.



Mae rhywbeth i bawb ei fwynhau.



Mae gennym ni ddigwyddiadau ar Galan Gaeaf a'r Nadolig. Hefyd amrywiaeth o ddigwyddiadau ym mhob un o'n hamgueddfeydd.

Er enghraifft:



- Amgueddfa Dros Nos
- Sgyrsiau yn yr Orielau
- Datganiadau ar yr Organ



- Teithiau Ysbryd
- Gŵyl Fwyd yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
- Swperau Gardd GRAFT yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau



- Cyrsiau Cadw Gwenyn yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
- Cyflwyniad i Waith Gof yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru



- Cyrsiau Lliwio Naturiol  yn Amgueddfa Wlân Cymru
- Bŵtcamps Rhufeinig yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru



- Gweithgareddau Dementia Gyfeillgar
- Digwyddiadau yng ngogledd Cymru wrth i ni ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi Cymru

Rhai o'n harddangosfeydd:

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**



Picture Post: Eicon o'r Ugeinfed Ganrif
Mai – Tachwedd 2025

Dyfal Droi y Garreg
Mehefin 2025 – Chwefror 2026

Hip Hop: Stori Cymru
Gorffennaf 2025 – Chwefror 2026

Artes Mundi 11: Hydref 2025–Mawrth 2026

Gwen John: Hardd a Hynod
Chwefror – Mehefin 2026



**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru**

Cymru ... amdani hi - Mehefin – Rhagfyr 2025

Cymru ... yw ein cartref - Tachwedd 2024 – Tachwedd 2025



**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**

Gwaith Merched - Mawrth –  Rhagfyr 2025




Diolch i bawb sydd wedi treulio amser gyda ni eleni. Trwy ymweld, cefnogi neu weithio gyda ni.




Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich croesawu yn ôl. Os nad ydych chi wedi bod yn gysylltiedig â ni eto, hoffem newid hynny.



Ewch i'n gwefan i weld beth sy'n digwydd a dechrau cynllunio eich ymweliad.

Gwefan: [amgueddfa.cymru](amgueddfa.cymru)